# CYLCHLYTHYR

## Vale Standard

**Haf 2023**



Yn llawn gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn agos atoch chi

**NEWYDD**

- Cael y diweddaraf am newyddion cymunedol
- Proffilio tenantiaid - a beth ydyw?
- Sut i fod yn wirfoddolwr

Vale Homes
Safe in our hands
Cartrefi'r Fro
Diogel yn ein dwylo

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG



# Croeso

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol iawn o ran pandemig Covid. Bu'n rhaid i ni newid y ffordd yr ydym yn gweithio. Fodd bynnag, wrth i ni lacio'n ôl i'r normal newydd rydym yn dysgu rhai o'r gwersi ac yn llunio a newid ein gwasanaethau i'w gwneud yn fwy effeithiol.



## Croeso i Gylchlythyr y Vale Standard

### Diolch i adborth gan denantiaid, rydym wedi penderfynu ail-lansio'r cylchlythyr hwn gan Gartrefi'r Fro.

Un peth a wnaethom yn ystod y pandemig oedd adolygu'r data sydd gennym am ein Tenantiaid/ Deiliaid contractau - wrth i ni sylweddoli nad ydym yn cadw'r data cyfredol perthnasol ar ein systemau. Arweiniodd hyn at ddatblygu ein prosiect Proffilio Tenantiaid. Trowch at (dud.6) i ddarganfod mwy am yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud a sut y byddwn yn defnyddio'r data rydym wedi'i gasglu.

Hefyd, eleni fe wnaethom adolygu a datblygu Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid/Deiliad Contract a Lesddeiliaid newydd, a chafodd hyn gymeradwyaeth y Cabinet ym mis Hydref. Mae manylion am beth yn union y mae hyn yn ei olygu i chi fel ein Tenantiaid/ Deiliaid Contract (tud.6).

Newid arwyddocaol arall eleni oedd gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016, gan arwain at sawl newid (tud.5).

I helpu gyda chyfathrebu, rydym wedi rhoi manylion eich Rheolwyr Cymdogaeth ar dud.4, ac wedi egluro â phwy i gysylltu â nhw ar gyfer materion gwahanol rhwng y Cyngor a'r Heddlu (tud.13). Mae'r cylchlythyr hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a diweddariadau ar brosiectau/ mentrau cymunedol.

CYNNWYS


Adeiladau Newydd 2

Cwrdd â'r Tîm 4

Gwybod y rheolau 5

Sgiliau, hyfforddiant 8

Gwirfoddoli 10

Casgliadau Gwastraff 15

Iechyd a Lles 18

Posau a chystadleuaeth 19

# Adeiladau Newydd

**Rydym yn adeiladu mwy o gartrefi yn y Fro i fynd i'r afael â'r prinder tai.**



**2023 yw ein blwyddyn brysuraf erioed i'n tîm Datblygu Tai.**

Mae prosiectau adeiladu yn cynnwys 23 o gartrefi ar *Lôn y Felin Wynt*, y Barri; 14 o gartrefi ar *Lôn yr Ysgol,* Penarth; a 53 o gartrefi ar *Hayeswood Road,* y Barri.

Dechreuon ni gynlluniau hefyd ar gyfer fflatiau un ystafell wely mawr eu hangen yn *Coldbrook Road East* (20 uned) a hen *Safle Clinig Colcot* (12 uned) yn y Barri.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio i *Clos Holm View,* y Barri (Cam 2) ar gyfer 31 uned a *Maes y Ffynnon,* ac yn Nhresimwn ar gyfer 8 uned.

Bydd gennym lawer mwy o wybodaeth i adrodd amdano yn ein cylchlythyr nesaf.



## Mae gwaith cynnal a chadw mawr ar y gweill

**Mae gwaith atgyweirio mawr yn cynnwys gwaith ar raddfa fawr fel trin lleithder, toeau newydd, ail-rendro, rhoi ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd.**

Mae'r rhain yn waith helaeth ac yn gallu cymryd sawl wythnos.

Gall gwaith atgyweirio sy'n cael ei adrodd i gychwyn fel gwaith ymatebol ddod yn waith mwy helaeth. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd y gwaith yn cael ei drosglwyddo i'r tîm Asedau Tai i'w gynnal ar sail rhaglen. Efallai y bydd oedi cyn i'r gwaith hwn ddechrau gan fod angen ei gontractio i gwmni allanol yn aml.

**Bydd ein staff yn gallu eich cynghori am y broses a'r amserlenni pe baech chi'n cael eich hun yn y sefyllfa hon.**

# Sylw ar Atgyweiriadau



**Pan fyddwch yn gwneud cais am atgyweiriad, byddwch fel arfer yn cael apwyntiad ar gyfer y gwaith, ynghyd â negeseuon testun sy'n cadarnhau neu'n atgoffa.**

**Mae amserlenni atgyweiriadau yn dibynnu ar faint o frys y mae angen gwneud y gwaith**

- Mae gan atgyweiriadau argyfyngus amser targed o 24 awr yn achos peryglon diogelwch neu les, fel diffygion trydanol, gollyngiadau difrifol, neu eiddo anniogel neu ddiffyg gwresogi.
- Mae gan atgyweiriadau brys amser targed o 5 diwrnod.
- Mae gan waith trwsio cyffredinol amser targed o 42 diwrnod.
- Efallai na fyddwch yn gallu symud i gartref arall os oes gennych unrhyw daliadau heb eu talu ar gyfer gwaith atgyweirio yr ailgodir tâl amdano.
- Efallai y gellir ailgodi tâl am atgyweiriadau nad ydynt yn cael eu hystyried fel traul naturiol, ac efallai y gofynnir i chi dalu amdanynt ymlaen llaw neu drwy is-gyfrif.
- Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal gwiriadau diogelwch bob blwyddyn am nwy ac yn llai aml ar gyfer trydan, a rhoddir rhybudd ymlaen llaw yn ysgrifenedig. Rhaid caniatáu mynediad ar gyfer y gwiriadau hyn, a gall methu â gwneud hynny arwain at gamau cyfreithiol.



**Os oes angen atgyweiriadau arnoch, mae 4 ffordd i gysylltu â'r Cyngor:**

1. Galw'r brif ganolfan alwadau **C1V 01446 700111**
2. Galw'r **Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Tai** (Swyddfeydd Dinesig, desg y Dderbynfa)
3. **Atgyweirio brys y tu allan i oriau arferol 01446 747874**
4. neu ewch i wefan Cyngor Bro Morgannwg a mewngofnodi ar-lein gan ddefnyddio'r adnodd adrodd: **https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/do_it_online/Report.aspx**

# Cwrdd â'r Tîm

**Mae gan ein Cynorthwywyr a Rheolwyr Cymdogaeth ystod eang o wybodaeth a sgiliau, a dylent fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw faterion tai.**

## Gibbonsdown a Treharn



Sharon Cull
*Rheolwr Cymdogaethau*
Ffôn:
01446 709428 / 07973714899
E-bost:
scull@valeofglamorgan.gov.uk



Maria Loe
*Cynorthwyydd Cymdogaethau*
Ffôn:
01446 709701 / 07730 284147
E-bost:
mloe@valeofglamorgan.gov.uk

## Dwyrain y Barri, Dinas Powys a Phenarth



Stephanie Stoyle
*Rheolwr Cymdogaethau*
Ffôn:
01446 729633 / 07860526359
E-bost:
slstoyle@valeofglamorgan.gov.uk



Luke Wagstaffe
*Cynorthwyydd Cymdogaethau*
Ffôn:
01446 709573 / 07971677980
E-bost:
lwagstaffe@valeofglamorgan.gov.uk

## Ystâd Ganolog y Buttrills a Cholcot



Emma Williams
*Rheolwr Cymdogaethau*
Ffôn:
02920 673209 / 07855 311895
E-bost:
ecwilliams@valeofglamorgan.gov.uk



Cara Taylor,
*Cynorthwyydd Cymdogaethau*
Ffôn: 07912 293024
E-bost:
carataylor@valeofglamorgan.gov.uk

## Gorllewin y Barri, Llanilltud Fawr, y Rhws, Sain Tathan a'r Fro Wledig



Georgia Thomas *(Llun - Dydd Mercher)*
Christine Ball *(Dydd Mercher-Gwener)*
*Rheolwr Cymdogaethau (rhannu swydd)*
Ffôn:
02920 673170 / 07815938413
E-bost:
Gthomas@valeofglamorgan.gov.uk



Paul Martin
*Cynorthwyydd Cymdogaethau*
Ffôn:
01446 709546 / 078166 50757
E-bost:
Pjmartin@valeofglamorgan.gov.uk

Vale Homes
Safe in our hands
Cartrefi'r Fro
Diogel yn ein dwylo

# Materion Rheoli Tai ...

**Mae is-osod anghyfreithlon yn drosedd gyda chosbau posibl o garchar am hyd at ddwy flynedd, dirwyon o hyd at £50,000, neu orchymyn Llys i ad-dalu elw i'r Cyngor.**




## A wyddech chi?

Gall Deiliaid Contract Diogel (Tenantiaid) wneud cais am drosglwyddiad i gartrefi eraill Cyngor y Fro neu bartneriaid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) drwy gynllun Homes4U y Fro. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein, ond disgwylir y bydd gan Ddeiliaid Contract gyfrifon rhent clir a dim un tor contract heb ei ddatrys.

Gall deiliaid contractau diogel hefyd wneud cais am gydgyfnewid gyda deiliaid contract eraill, yn amodol ar ganiatâd a bod rhai meini prawf eraill yn cael eu bodloni.

**Cofrestrwch** ar gyfer cynllun Homeswapper yn www.homeswapper.co.uk i chwilio am Ddeiliaid Contract eraill sydd â diddordeb mewn cyfnewid. Cysylltwch â ni i gytuno a llofnodi'r gwaith papur angenrheidiol ar gyfer cyfnewid llwyddiannus.

*Ni ddylai unrhyw un symud cartrefi nes bod caniatâd wedi'i roi a bod y gwaith papur wedi ei gwblhau.*

# Symud allan



**Wrth symud allan, rhowch 4 wythnos o rybudd ysgrifenedig a dychwelyd yr allweddi i gartref eich Cyngor. Gall methu â gwneud hynny arwain at atebolrwydd rhent parhaus.**

Mae disgwyl i gartrefi Cyngor gael eu clirio a'u glanhau, a'u dychwelyd mewn cyflwr rhesymol. Gellir codi tâl ar ddeiliaid contractau sy'n symud allan am ddifrod neu waith adferol. Bydd gwiriad cyn terfynu yn cael ei gynnal cyn i chi symud allan, a byddwch yn cael gwybod am unrhyw waith adfer gofynnol.

Dylid dychwelyd allweddi cyn canol dydd Llun i osgoi taliadau rhent ychwanegol. Dychwelwch allweddi i'r Dderbynfa Dai yn y swyddfeydd Dinesig yn y Barri, sy'n gweithredu ar ddydd Mawrth a dydd Iau rhwng 10-12pm. *(Rhoddir derbynebau.)*

# *Prosiect..*
# Proffilio Tenantiaid

## Deall pwy yw Ein Tenantiaid/Deiliaid Contract -



Diolch i chi, ymatebodd bron i **50%** o drigolion Cartrefi'r Fro i'r prosiect pwysig hwn yn ystod 2022.

Mae'r data hyn wedi bod yn amhrisiadwy wrth ein helpu i ddeall anghenion ein tenantiaid, fel trafferthion ariannol, ynysu cymdeithasol a dyheadau o ran cyflogaeth.

Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i ailddatgan ein hymrwymiad i brosiectau cymunedol, megis ein Gwasanaeth Cynghori Ariannol, mentrau i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol, a rhaglenni cymorth cyflogaeth a sgiliau. Mae'r data a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio i lunio a datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a dewisiadau ein tenantiaid. Mae eich adborth wedi bod yn hanfodol i'n helpu i flaenoriaethu a gwella adnoddau a chyfleusterau lleol sydd ar gael.

*Diolch am gymryd rhan yn y prosiect Proffilio Tenantiaid.*




## Cymerwch ran ...

**Mae staff Cartrefi'r Fro a'r Gweithgor Tenantiaid wedi cydweithio i ddatblygu'r strategaeth newydd ar gyfer Tenantiaid/Deiliaid Contract a Lesddeiliaid.**

Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo i wrando ar eich meddyliau a'ch syniadau ar sut y gallwn gynnig gwell gwasanaethau i denantiaid, lesddeiliaid a deiliaid contractau.

**CYMERWCH RAN!**

Darganfyddwch fwy am gefnogaeth, hyfforddiant a chyllid sydd ar gael. Mae gwirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser yn gymwys i gael gwobrau gwych

# Cynnwys Tenantiaid

**Fel rhan o'r Prosiect Proffilio Tenantiaid gwnaethom ofyn i denantiaid/deiliaid contract a hoffent gymryd rhan mewn gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid.**

**Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol yw y gallant fod yn rhan o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, llenwi holiaduron ar-lein a rhoi adborth neu sefydlu grwpiau tenantiaid a preswylwyr yn eu hardal leol.**

Gellir gwahodd unrhyw un sy'n mynegi diddordeb i fynychu digwyddiad CT. Fis Medi diwethaf roedd recriwtiaid newydd yn gallu clywed gan Uwch Reolwyr ar sut i gymryd rhan, a chael gwybod am amrywiaeth o grwpiau a'u mentrau. Roeddent hefyd yn gallu cwrdd â Rheolwyr a Chynorthwywyr Cymdogaeth.

Roedd yn gyfle i gwrdd â gweddill y tîm a darganfod sut y gall dylanwadu ar benderfyniadau wneud gwahaniaeth mawr a sicrhau newid. O ganlyniad, ymunodd 15 aelod newydd â Gweithgor Cartrefi'r Fro y llynedd.



Bydd aelodau newydd yn cael eu paru gydag aelodau profiadol i gael cefnogaeth, er mwyn deall eu rôl yn llawn.

**Oes diddordeb gennych?**
**Cysylltwch â ni yn:**
Get-involved@valeofglamorgan.gov.uk

## EISIAU HELPU I WELLA EIN GWASANAETHAU?

### YDYCH CHI ERIOED WEDI MEDDWL SUT MAE CARTREFI'R FRO YN DARPARU EI WASANAETHAU?

### OS YDYCH, YNA EFALLAI Y BYDD GENNYCH DDIDDORDEB YN Y FENTER CRAFFU GAN DENANTIAID

Mae'n swnio'n heriol ond nid ydyw. Rhoddir hyfforddiant llawn i sicrhau y gallwch gymryd rhan yn rhwydd a dod yn aelod gwerthfawr o'r tîm gwirfoddol dan arweiniad Tenantiaid - nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol arnoch, ac mae hwn yn gyfle gwych i gwrdd ag eraill a gwneud ffrindiau newydd.

**Swyddi gwag ar gael:**

### Aseswr Ansawdd Gwasanaethau (AAG)

Bydd yr Aseswyr Ansawdd Gwasanaethau yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol, a fydd yn helpu i graffu ar y gwasanaethau a ddarparwn, gan edrych ar Pam, Ble, a Sut y cânt eu darparu. Mae'r grŵp yn rhoi cyngor ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim, ac yn gwneud argymhellion ar newidiadau sydd eu hangen, gan alluogi Cartrefi'r Fro i ddarparu gwell gwasanaethau sy'n werth am arian ac sy'n cael eu darparu mewn modd amserol i denantiaid.

Gall aseswyr Ansawdd Gwasanaethau hefyd weithredu fel Cwsmeriaid Cudd – a byddant yn cwblhau ymarferion "Siopa Dirgel" ar wasanaethau tai o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn rhoi persbectif tenantiaid i ni ar sut mae ein defnyddwyr gwasanaethau yn derbyn gwasanaethau - bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu safonau ein gwasanaethau.




Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Shani Payter, 029 20673215 neu 07813068324 Neu e-bostiwch get-involved@valeofglamorgan.gov.uk

# Cyflogaeth a Sgiliau

## Rhaglen Cyflogadwyedd a Hyfforddiant Cyfle'n Curo



**Dros y 4 blynedd diwethaf, bu Cartrefi'r Fro yn cydweithio â Chymdeithas Tai Newydd a thîm Ysbrydoli i Weithio Cyngor Bro Morgannwg (YiW) ar y Rhaglen Cyflogadwyedd a Hyfforddiant Cyfle'n Curo.**

Nod y rhaglen hon oedd helpu trigolion y Fro i symud yn agosach at y farchnad swyddi trwy hyfforddi, hyfforddiant sgiliau meddal, magu hyder, a gwirfoddoli. Roedd y cyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn cynnwys adeiladu, addysg, lletygarwch, manwerthu, hunangyflogaeth, diogelwch a gofal plant.

Darparodd Cartrefi'r Fro a Newydd gyfleoedd prentisiaeth a phrofiad gwaith gyda'u contractwyr, gan arwain at 20 o bobl ifanc lleol yn cwblhau prentisiaethau ac yn gweithio ar safleoedd arobryn. Cynigiwyd Gwersylloedd Cyflogaeth Preswyl hefyd, gan gynnig sgiliau personol ac adeiladu tîm i bobl ifanc, datblygu CV, sgiliau cyfweld a chofrestru ar gyfer cyflogaeth gydag asiantaethau.

Yn ystod y cyfnod o bedair blynedd, cyflwynodd y Tîm Cyfle'n Curo 1921 o Gymwysterau Galwedigaethol, 69 o gyfleoedd gwirfoddoli, gan helpu 208 o bobl i gael gwaith a 20 o brentisiaethau.

Daeth cyllid ar gyfer Cyfle'n Curo i ben yn 2022 a daeth prosiect cyflogaeth a sgiliau Cartrefi'r Fro yn ei le yn 2023, i barhau i gynorthwyo Tenantiaid Cartrefi'r Fro i ddod o hyd i waith a datblygu sgiliau newydd.

## Prosiect Sgiliau Cyllid a'r Dyfodol (SCD)



**Defnyddiwyd cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau tuag at y Rhaglen Datblygu Cyflogaeth a Sgiliau, a oedd yn canolbwyntio ar helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith, i ddatblygu sgiliau neu wella eu rhagolygon yn y dyfodol.**

Roedd y rhaglen yn targedu 3 maes pwysig yn bennaf, megis gwella cyllid, datblygu sgiliau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Roedd y Prosiect SCD yn cynnwys 134 o unigolion, ac mae'r prosiect hwn wedi llwyddo i:

- Helpu 17 o bobl i gael gwaith.
- Cyflawni 150 o ganlyniadau hyfforddiant achrededig.
- Ymgysylltu 204 o weithiau gyda chleientiaid i'w cefnogi i oresgyn rhwystrau personol.
- Helpu 48 o unigolion gyda chyllidebu a dyledion, gan gynnwys cysylltu â Stepchange, y Dreth Gyngor, Budd-dal Tai, Credyd Cynhwysol (CC) a chwmnïau dyledion.
- Cynorthwyo 15 o bobl i ddiweddaru eu cyfrif CC neu ddechrau hawliad.
- Annog 7 unigolyn gymryd rhan mewn Gwirfoddoli fel rhan o'u taith.
- Darparu 83 sesiwn Sgiliau Cyflogadwyedd.
- Cwblhau 60 o ymyriadau i adrannau perthnasol i gynorthwyo unigolion i gynnal eu tenantiaethau a lleihau digartrefedd.

Gweithiodd y prosiect SCD yn agos gyda'r rhaglen Cyfle'n Curo yn arwain i fyny at lansio rhaglen Cyflogadwyedd a Sgiliau newydd Cartrefi'r Fro.

# Gwerth yn y Fro
# Value in the Vale




## Sefydliadau

Mae Gwerth yn y Fro yn cysylltu gwirfoddolwyr â chyfleoedd gwirfoddoli. Gwiriwch nifer yr oriau y mae gwirfoddolwr yn eich cefnogi gyda chi i'w galluogi i gael cyfle i ennill gwobrau am eu hamser.

## Busnes

Ymuno â ni fel partner a chynnig gwobrau o'ch dewis i wirfoddolwyr am yr amser y maent yn ei roi i fentrau lleol. Rydym yn cefnogi ein partneriaid gyda digwyddiadau a marchnata yn ogystal â llwyfan cymorth busnes pwrpasol i ddiolch i chi am fod yn un o'n partneriaid.






## Gwirfoddoli

Gwirfoddoli gyda sefydliadau ym Mro Morgannwg i gefnogi eu gweledigaethau. Yn ogystal â chreu cysylltiadau yn eich ardal leol, gall hyn wella eich iechyd corfforol a meddyliol cyffredinol. Fel diolch, mae cyfle i chi hawlio'r gwobrau a dderbynnir am y gweithgareddau gwirfoddoli rydych chi'n cymryd rhan ynddynt.

hello@valueinthevale.com

**www.valueinthevale.com**

Mae ein gwefan newydd, Gwerth yn y Fro bellach yn fyw ac yn cynnig llwyfan i wirfoddolwyr dderbyn gwobrau a'u hadbrynu yn y Fro.

# Manteision Gwirfoddoli





Gall gwobrau fel coffi am ddim, sesiwn saethyddiaeth, reiki neu gael y car wedi'i olchi, roi rhywfaint o ryddhad yn yr argyfwng costau byw. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant achrededig am ddim lle gall dysgwyr ennill sgiliau gwerthfawr ar gyfer gwirfoddoli neu eu taith yn ôl i'r gwaith.

**I gael mwy o wybodaeth**

ewch i; **www.valueinthevale.com**
neu cysylltwch â
lyoung@valeofglamorgan.gov.uk

## Astudiaeth achos

**Cyn i mi ddechrau gwirfoddoli roedd bywyd yn brysur iawn gyda llawer o ymrwymiadau gwahanol, ond wrth i'r plant ddechrau tyfu i fyny, roeddwn i'n teimlo bod bywyd yn dechrau mynd yn ddiflas ac yn unig. Roeddwn wedi cwblhau llawer o ailhyfforddi o fewn TG fel y'i gelwid bryd hynny, ac yna fel tiwtor oedolion i geisio cael gwaith.**

Ar y dechrau, ni ddewisais wirfoddoli, (ynghyd â llawer o rai eraill yr wyf yn tybio) ond cefais wahoddiad i fynychu'r digwyddiad ymgysylltu tenantiaid cyntaf erioed ar gyfer Adran Dai'r Cyngor. Ar ôl trafodaeth gyda fy nheulu, fe wnaethon nhw fy annog i dderbyn. Roeddwn yn nerfus iawn gan mai fi oedd y lleiaf iach ond y mynychwr gwirfoddol ieuengaf. Roedd hyn yn ôl yn 2006/07 a phryd y dechreuodd fy nhaith wirfoddoli.

Wnes i ddim ymwneud mwy na hynny mewn gwirionedd nes i mi gael fy ngwahodd i gymryd rhan mewn rhywfaint o waith gyda Cefnogi Pobl. Drwy'r rôl honno, trefnon nhw fwy o hyfforddiant digidol a roddodd fi mewn sefyllfa dda o ran lle mae fy rôl wirfoddoli o fewn Adran Tai Cyngor Bro Morgannwg wedi dod â mi heddiw.

Ymhen amser, dechreuais ddysgu sut i gymryd cofnodion, gyda chymorth un o'r tenantiaid eraill a thrwy fynychu Hyfforddiant ar gyfer Swyddogion, y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr Ysgrifenydd a'r Trysorydd. Cynigiwyd hyfforddiant TEA i lawer ohonom, (Swyddogion Ymgysylltu Tenantiaid, sy'n fwy adnabyddus fel Arolygwyr Tenantiaid) ac roeddwn i'n teimlo bod hyn wedi rhoi cyfle i mi ychwanegu at fy set sgiliau. Fe wnaeth hefyd fy helpu i ddod yn fwy hyderus wrth siarad â thrigolion eraill a datblygu fy sgiliau chwalu jargon er mwyn deall terminoleg a allai fod yn anodd ei deall, yn well.

Mae gwirfoddoli wedi fy atgoffa bod fy ymennydd yn gweithio. Mae wedi caniatáu imi aros yn brysur, (ychydig yn rhy brysur weithiau yn ôl fy hanner arall). Rwy'n amsugno gwybodaeth yn hawdd ac yn hoffi trosglwyddo'r hyn rwyf wedi'i ddysgu i eraill, gan obeithio dangos y gall unrhyw un roi cynnig arni a dysgu rhywbeth newydd waeth beth fo'ch amgylchiadau.

Rwyf wedi bod yn ffodus bod y rhan fwyaf o'm hyfforddiant ardystiedig wedi cael ei dalu amdano, ond rwyf hefyd wedi ymgymryd â hyfforddiant drwy Cymunedau Digidol Cymru (CDC) - Sgiliau digidol sylfaenol, ac wedi cwblhau'r cwrs achrededig Cyflwyniad i Wirfoddoli, a oedd yn ddefnyddiol iawn i mi.

Gallai gwirfoddoli chwarae rhan hanfodol yn nhaith rhywun yn ôl i'r gwaith a'u helpu i fod yn llai ynysig yn gymdeithasol. Mae hefyd yn galluogi pobl i helpu eraill ac ar yr un pryd dderbyn gwobrau drwy Gwerth yn y Fro pe baent yn dewis, megis coffi am ddim, golchi ceir, reiki neu saethyddiaeth i enwi ond ychydig.



# Chymorth Cyflogadwyedd a Sgiliau

Cartrefi'r Fro





Os ydych yn breswylydd Cartrefi'r Fro ac angen cymorth i ddod o hyd i gyflogaeth, gallwn gynnig pecyn pwrpasol o help sydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer eich anghenion. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- Cefnogaeth gyda datblygu CV, chwilio am swyddi a cheisiadau.
- Mynediad i'n Bwrsariaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant - rydym yn talu am hyfforddiant i helpu eich taith.
- Hyfforddiant ar-lein am ddim os yw hynny'n haws i chi.
- Cefnogaeth gyda hyfforddiant cyfrifiadurol trwy ein Cynllun Cyfaill Digidol.
- Mynediad i'n Cynllun Benthyciadau Llechen – i'r rhai heb gyfrifiaduron.
- Cyfleoedd gwirfoddoli drwy'n Rhaglen Gwirfoddoli Gwerth yn y Fro - cewch wobrau am yr amser rydych chi'n ei roi.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Vale Homes Safe in our hands

Cartrefi'r Fro Diogel yn ein dwylo

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am beth allwn ni ei gynnig i chi, cysylltwch â mi am sgwrs anffurfiol.

**Shani Payter** 02920 673215 07813068324
spayter@valeofglamorgan.gov.uk

# Prosiectau Gardd Cymunedol

## GWENOG COURT





Gwelliannau camau 1a 2

**Gan weithio mewn partneriaeth â'r tîm Cyfoethogi Cymunedau a'r Rheolwr Cymdogaethau lleol, datblygwyd cynllun ar gyfer prosiect bioamrywiaeth ar dir Gwenog Court, sy'n ddatblygiad tai gwarchod yn y Barri sy'n cefnogi dros 100 o drigolion.**

Cyn i'r prosiect hwn ddechrau ychydig iawn oedd gan yr ardal i'w gynnig i'r trigolion, y disgyblion na'r gymuned leol. Cynhaliwyd proses ymgynghori a dylunio fanwl a oedd â'r nod o wneud yr ardal hon yn flaenllaw o'r hyn y gellid ei gyflawni trwy fioamrywiaeth a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fel rhan o strategaeth y Cyngor ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd Georgia Thomas, y Rheolwr Cymdogaeth lleol *"Roeddem yn falch iawn ein bod wedi derbyn y gefnogaeth hon diolch i grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect yn gyfle cyffrous i'r trigolion a'r gymuned leol ymwneud â byd natur ar garreg eu drws..."*

## Garddwest Crawshay





*Diolch yn fawr i'r Big Fresh Catering Company a ddarparodd y bwffe anhygoel a fwynhawyd gan dros 80 o bobl a fynychodd y digwyddiad.*

**Cynhaliwyd garddwest yng Nghynllun Tai Gwarchod Crawshay** i ddathlu'r prosiect pontio'r cenedlaethau llwyddiannus rhwng gwirfoddolwyr o Vale Plus Extra, tenantiaid o'r cynllun yn Llanilltud Fawr a phlant ysgol o Flwyddyn 5, Ysgol y Ddraig.

*Rydym wir yn gwerthfawrogi'r gwaith caled a wnaed a'r ardd hardd*

## Garddwest Pawb



Roedd parti gaeaf cofod agored y Barri yn llwyddiant ysgubol gyda digonedd o weithgareddau llawn hwyl gan gynnwys beic paentio sefydlog. *Diolch yn arbennig i'r holl wirfoddolwyr a helpodd i wneud y digwyddiad yn llwyddiant mawr.*

Os hoffech gymryd rhan yn unrhyw un o'r prosiectau hyn yn y dyfodol, cysylltwch â:

Mark Ellis, Swyddog Cyfoethogi a Chyfranogiad Cymunedau
markellis@valeofglamorgan.gov.uk



# I bwy y dylid rhoi gwybod?

## Cyngor Bro Morgannwg

- Ceir wedi'u gadael
- Nodwyddau / offer cyffuriau wedi'u taflu
- Tipio anghyfreithlon
- Parcio anghyfleus / anghyfreithlon
- Sbwriel / gwastraff
- Sŵn o dafarndai / clybiau
- Cymdogion swnllyd
- Anifeiliaid heb fod dan reolaeth
- Torri Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus neu Is-ddeddf

(01446) 700111

contactonevale@valeofglamorgan.gov.uk

## Heddlu De Cymru

- Difrod troseddol / fandaliaeth
- Camddefnyddio a gwerthu cyffuriau
- Graffiti
- Brawychu / aflonyddu / cam-drin geiriol
- Ymddygiad stwrllyd (gan gynnwys yfed ar y stryd)
- Niwsans cerbydau a defnydd amhriodol o gerbydau
- Aflonyddwch gan Bobl Ifanc

101

swp101@south-wales.police.uk

**Partneriaeth Bro Ddiogelach**

Gorsaf Heddlu y Bari, Heol Gladstone, Y Bari, Bro Morgannwg. CF63 1TD

**Safer Vale Partnership**

Barry Police Station, Gladstone Road, Barry, Vale of Glamorgan. CF63 1TD

# Mae'r ffordd rydych chi'n talu eich trethi dŵr wedi newid…

Ers mis Ebrill 2023, mae Dŵr Cymru wedi cymryd y gwaith drosodd o gasglu taliadau dŵr a charthffosiaeth gan gwsmeriaid. Ni fydd y taliadau hyn yn cael eu casglu gan y Cyngor mwyach fel rhan o'ch rhent wythnosol.

Anfonodd Dŵr Cymru lythyr atoch ym mis Mawrth 2023, gyda'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Roedd y llythyr hwn yn cynnwys manylion eu gwefan. Ewch i'w gwefan neu ffoniwch nhw, gan ddyfynnu rhif y cyfrif ar y llythyr, ac yna trafodwch y cynllun talu mwyaf cyfleus sy'n gweddu i'ch amgylchiadau.




## Rhandir a Gardd Gymunedol Treharne Road

### Yn cael eu rhedeg gan

# Gibby Green Fingers

**Hoffech chi wirfoddoli mewn gardd gymunedol leol yn Gibbonsdown (oddi ar Treharne Road)**

**Byddai'r dyletswyddau'n cynnwys:**

- Cynorthwyo gyda dyfrio, chwynnu a phlannu yn ôl y galw
- Cynorthwyo gyda thorri gwair, strimio a thorri gordyfiant yn ôl
- Cadw llwybrau'n lân a chlirio malurion
- Cydgysylltu â gwirfoddolwyr ar waith prosiect dyddiol

Gibby Green Fingers

Barry Community Garden

**Dydd Llun, Mercher a Sadwrn
10am - 2pm
2-4 awr yr wythnos**

**Darperir hyfforddiant llawn a chyfleoedd i ddatblygu**







Vale Homes
Safe in our hands

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**Am ragor o wybodaeth am gymryd rhan mewn gwirfoddoli gyda Gibby Green Fingers cysylltwch â Mark Ellis ar 07826 020707**

Cartrefi'r Fro
Diogel yn ein dwylo

# CASGLIADAU BAG DU

**Mae gwasanaeth casglu bagiau du bob 3 wythnos sydd wedi'i gyfyngu i 3 fag fesul casgliad. Ond rydym yn cynnig cymorth ychwanegol i deuluoedd mawr ac ar gyfer cynhyrchion hylendid a gwastraff anifeiliaid anwes.**



**Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor neu os yw'n well gennych, cysylltwch â Chanolfan Alwadau'r Cyngor ar 01446 700111 a bydd rhywun yn cysylltu â chi.**



Lle bo'n bosibl, rhowch eich tri fag yn uniongyrchol y tu allan i'ch eiddo a cheisiwch osgoi pentyrru bagiau. Mae hyn yn denu gwastraff arall fel tipio anghyfreithlon a hefyd wylanod a fermin, sy'n arwain at fagiau wedi hollti, sbwriel rhydd ac yn gyffredinol mae'n effeithio ar eich amgylchedd lleol. Trwy ailgylchu cymaint â phosibl a thrwy dynnu gwastraff bwyd o'ch bagiau du, bydd wir yn helpu i gadw eich ardal yn lân ac yn daclus. Byddwch hefyd yn cyfrannu at wella'r amgylchedd drwy ailgylchu mwy.



## Casgliadau ailgylchu

Hoffem ddiolch i'r holl drigolion hynny sy'n ailgylchu eu gwastraff bob wythnos. Hoffem hefyd helpu'r trigolion sy'n ei chael hi'n anodd gwahanu eu gwastraff a'u helpu i ailgylchu mwy. Os oes angen cymorth arnoch gyda'ch ailgylchu neu wastraff, cysylltwch â ni a byddwn yn trefnu i swyddog ailgylchu ymweld â chi'n bersonol a'ch helpu.

## Gwastraff Gwyrdd

O fis Gorffennaf ymlaen, ni fyddwn yn casglu gwastraff gardd o'ch cartref am ddim mwyach. Os hoffech i ni gasglu eich gwastraff gardd o'ch cartref, gallwch danysgrifio i wasanaeth trethadwy newydd. Rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd bydd y gost naill ai'n £20 neu £30, yn dibynnu ar nifer y bagiau gwastraff gardd rydych chi'n eu rhoi allan fel arfer. Byddwn hefyd yn cynnig gwasanaeth *'ffonio a chais'* newydd rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror. Bydd hyn ond ar gael i'r rhai sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth.

## Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Ar gyfer eitemau nad ydynt yn cael eu casglu wrth ymyl y ffordd, mae'n bosibl archebu apwyntiad trwy archebu ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk.

## A-Y Ailgylchu

Ar adegau, rydym yn deall y gallai fod yn anodd gwybod pa liw bag neu gynhwysydd y dylid rhoi eitemau penodol ynddynt. I wneud hyn yn haws rydym wedi cynhyrchu A i Y ailgylchu a all eich cynorthwyo i sicrhau bod eitemau'n cael eu rhoi yn y cynhwysydd cywir.

Gallwch weld yr A i Y ailgylchu drwy ymweld â'n gwefan **www.bromorgannwg.gov.uk**



# Beth i'w wneud mewn perthynas gamdriniol

## Gall cam-drin domestig ddigwydd i unrhyw un...

**Waeth beth fo'u hoedran, cyfeiriadedd rhywiol, dosbarth cymdeithasol, crefydd, diwylliant, neu allu economaidd, lefel addysg neu ffordd o fyw; mae'n digwydd i bobl gyfoethog a thlawd fel ei gilydd.**

Mae ymddygiad perthynas afiach yn cynnwys gweiddi, pwdu, chwalu pethau, galw enwau, gwneud i chi deimlo'n hyll ac yn ddiwerth, eich ynysu oddi wrth ffrindiau, eich atal rhag gweithio, rhoi bai arnoch chi, defnyddio cyffuriau, alcohol, neu straen fel esgus, troi plant yn eich erbyn, defnyddio plant i reoli, esgeuluso gwaith tŷ a gofal plant, mynnu rhyw, rheoli cyllid, a'ch gwneud yn gyfrifol am eu lles.

Mae ymddygiad perthynas iach yn golygu bod yn siriol, yn gyson, yn gefnogol, canmol eich ymddangosiad a'ch cymhwysedd, defnyddio'ch enw, ymddiried ynoch chi a'ch barn, croesawu eich ffrindiau a'ch teulu, annog eich annibyniaeth, cefnogi eich gyrfa a'ch dysgu, cyfaddef i gamgymeriadau, bod yn rhiant cyfrifol a chyfartal, rhannu cyfrifoldebau'r aelwyd, parchu eich hawl i ddweud 'na' wrth ryw, rhannu cyfrifoldeb ariannol, a chymryd cyfrifoldeb dros eu lles a'u hapusrwydd eu hunain.





# Mae cymorth ar gael

**Gwasanaethau Cam-drin Domestig y Fro**
9:00am - 4:30pm
01446 744755

**Byw Heb Ofn**
Oriau: 24/7
0808 80 10 800

**Digartrefedd a Thai**
01446 709567
01446 721534 (Out of hours)

**Gwasanaethau Cymdeithasol Brys**
Oriau: 24/7
029 2044 8360

**ChildLine**
Oriau: 24/7
0800 1111

**Y Samariaid**
Oriau: 24/7
116 123

**Mynediad i Wasanaethau Cyffuriau ac Alcohol** (MWCA)
0300 300 7000

**BAWSO**
Oriau: 24/7
0800 731 8147

**Shelter Cymru**
Dydd Llun - Dydd Gwener
9:30am - 12:30pm
08000 495 495

**Galw Iechyd Cymru**
0845 46 47

**Cynllun Dyn** (Gwasanaethau Cam-drin Domestig yn erbyn Dynion)
0808 801 0321

**Clinig Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol** (CAYRh)
029 2033 5795

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.safervale.co.uk neu

**01446 450200**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Y GWASANAETH CYNGOR ARIANNOL

Efallai y bydd y Tîm Cyngor Ariannol yng Nghyngor Bro Morgannwg yn gallu eich helpu chi â'r canlynol:

- Cyngor Budd-daliadau a ffurflenni hawlio, gan gynnwys Credyd Cynhwysol
- Ceisiadau am y Taliad Tai yn ôl Disgresiwn
- Gwybodaeth i roi trefn ar eich dyledion, gan gynnwys eich rhent
- Gwneud cais i elusennau am gymorth ariannol/materol
- Gwneud cais am boptai a nwyddau gwyn eraill
- Cofrestru ar gyfer y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes



Os ydych yn ei chael yn anodd cael deupen llinyn ynghyd, ffoniwch i drefnu apwyntiad gydag un o'n Hymgynghorwyr Ariannol ar 01446 709588/709146/709312. Gadewch neges os na chewch ateb a byddwn yn eich ffonio yn ôl.

**www.bromorgannwg.gov.uk**

**Oeddech chi'n gwybod bod Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro yn cynnig gwasanaeth Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi?**

## Aelwydydd yng Nghymru yn wynebu caledi ariannol oherwydd yr argyfwng costau byw.

Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol y gallent fod yn gymwys i gael budd-daliadau a allai gynnig y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r tîm Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi ar gael i helpu i nodi pa gymorth ariannol sydd ar gael i bobl yng Nghymru.

**Mae ein llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener**
**9am tan 5pm**
**0808 250 5700**

Angen cyngor annibynnol a diduedd?
Gall Advicelink Cymru helpu.

Mae gwasanaeth Advicelink Cymru Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro yn cynnig cyngor ar ddyled, budd-daliadau, tai a chyflogaeth. Gall trigolion Caerdydd a'r Fro sydd angen cyngor gysylltu ag Advicelink Cymru: Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am tan 5pm. **Ffoniwch 0808 278 7925**

### CYNGOR AR BOPETH YN ERBYN TROSEDDAU CASINEB

**Gall troseddau casineb ddigwydd yn bersonol ac ar-lein a gall gynnwys:**

- **Ymddygiad bygythiol**
- **Aflonyddu**
- **Cam-drin geiriol**
- **Ymosod**
- **Bwlio**
- **Lladrad**
- **Annog eraill i gyflawni troseddau casineb**
- **Difrod i eiddo**

Rydym yn ganolfan adrodd am droseddau casineb. Os yw rhywun rydych chi'n ei adnabod yn byw yng Nghaerdydd neu Fro Morgannwg ac yn credu eu bod wedi dioddef trosedd casineb, gallant siarad â ni drwy ein ffonio am ddim ar 0808 278 7925 rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

*Mae Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i amrywiaeth, hyrwyddo cydraddoldeb, tegwch a herio gwahaniaethu ble bynnag y mae'n ymddangos. Nid ydym yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu ar sail anabledd, hunaniaeth rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol.*

# Iechyd a Lles




## Mae Brechu'n Achub Bywydau

Imiwneiddio a Brechlynnau - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Brechu yw'r peth pwysicaf y gallwn ni ei wneud i'n diogelu ni a'n plant rhag salwch. Mae'n bwysig bod pob plentyn a babi yn cael eu himiwneiddio'n llawn i'w diogelu rhag afiechydon a allai fod yn ddifrifol. Mae afiechydon a oedd yn gyffredin gynt, megis difftheria a thetanws, bellach yn brin yn y DU oherwydd imiwneiddio. Nid yw bygythiad clefydau eraill, megis y **frech goch** a **llid yr ymennydd,** wedi diflannu yn y DU eto. Dylai rhieni sydd â phryderon neu ymholiadau ynghylch unrhyw agwedd ar broses imiwneiddio eu plentyn drafod y rhain â'u Meddyg, eu Hymwelydd Iechyd, eu Nyrs Practis neu Nyrs yr Ysgol.

Imiwneiddio a Brechlynnau - Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales)

## Brechlyn rhag y Ffliw a Phigiadau atgyfnerthu rhag COVID-19

Gwybodaeth am frechlyn COVID-19 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
Brechlyn rhag y ffliw - Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales)

**Pwy sy'n gymwys i gael brechiad rhag y ffliw?**

- Menywod beichiog
- Pobl 65 oed a hŷn
- Pobl sy'n byw mewn cartref gofal
- Pobl ag anabledd dysgu
- Pobl â salwch meddwl difrifol
- Gofalwyr 16 oed a hŷn
- Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen
- Staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal gyda chyswllt rheolaidd â chleientiaid
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor *(o 6 mis oed)*
- Pobl sy'n byw gyda rhywun sydd â system imiwnedd wan *(o 6 mis oed)*
- Pobl sy'n ddigartref

Mae'r Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio wedi cynghori y dylid gwneud cynlluniau i gynnig brechiad atgyfnerthu i'r rhai sydd â risg uwch o COVID-19 difrifol yr hydref hwn (2023). Bydd y cynnig hwn yn cynnwys unrhyw un sy'n gofalu'n ddi-dâl am rywun â risg uwch o gael COVID-19 difrifol. Bydd rhagor o fanylion am gymhwysedd yn cael eu rhyddhau yn ystod haf 2023 a gellir dod o hyd i unrhyw ddiweddariadau ar **Wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

Gwybodaeth Brechlyn COVID-19 - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
Brechlyn rhag y Ffliw - Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales)

## Wedi methu â chael brechiad? Wedi symud i Gymru yn ddiweddar?

Mae'n bwysig cael pob brechiad - gallwch chi wirio eich bod wedi cael pob un drwy drefnu apwyntiad â'r Nyrs yn eich meddygfa.

**Ffocws Arbennig: MMR (Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela)**

Mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod eich plentyn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ei frechlyn MMR, gan fod llai o blant wedi cael eu brechu'n ddiweddar ac mae hyn yn eu rhoi mewn perygl pe bai salwch yn lledaenu. Gallwch chi ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y brechlynnau MMR, a'r holl frechlynnau eraill sydd ar gael i chi a'ch teulu, yn **GIG 111 Cymru - Brechiadau**

# Amser Egwyl

## Chwilio geiriau

Allwch chi ddod o hyd i'r holl eiriau hyn yn y grid?

- Rhent
- Tenantiaid
- Gwerth
- Y Fro
- Sgiliau
- Cartrefi
- Tai
- Atgyweiriadau
- Llaith
- Lles
- Camdriniaeth
- Cefnogi
- Iechyd
- Ardal
- Rheolwr
- Cynorthwyydd
- Cynnwys
- Llwydni
- Cyflogaeth
- Cyngor
- Ariannol
- Cyfranogiad
- Cymuned

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| k | t | u | b | i | r | i | l | r | i | z | l | q | c | s |
| h | e | c | a | l | g | a | s | n | h | h | q | s | y | y |
| l | n | y | z | i | d | o | d | v | a | e | z | q | n | w |
| l | a | m | d | r | l | y | n | p | h | i | n | a | g | n |
| l | n | u | a | i | w | i | u | f | a | c | b | t | o | n |
| e | t | n | d | l | w | g | g | t | e | v | i | l | r | y |
| s | i | e | l | y | w | o | e | s | l | c | s | e | i | c |
| k | a | d | d | e | y | f | r | o | k | l | q | r | f | o |
| s | i | q | r | h | e | o | l | w | r | j | a | i | e | d |
| x | d | t | l | o | n | n | a | i | r | a | a | i | r | d |
| h | h | c | y | f | r | a | n | o | g | i | a | d | t | y |
| a | t | g | y | w | e | i | r | i | a | d | a | u | r | h |
| d | d | y | y | w | h | t | r | o | n | y | c | r | a | c |
| c | y | f | l | o | g | a | e | t | h | p | k | s | c | e |
| h | t | e | a | i | n | i | r | d | m | a | c | m | h | i |

## Cystadleuaeth Lliwio

Ar agor i bawb 3-10 oed

Bydd Enillwyr yn derbyn taleb £10



**Eich enw** ..........................................................................

**FFôn / e-bost neu gyfeiriad post:** ....................................................

*Lliwiwch i mewn a'i anfon at:*

Heather Powney, Tai, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri CF63 4RU